# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 12.08.08

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr J.R.Jones ac Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Y Rhingyll Bill Coppack a Mr Ian Williams (Heddlu Gogledd Cymru)

**Ymgeisydd:** Mr Patrick S. Barry; Mr Tudur Owen (Cyfreithiwr ar ran Mr Barry)

**Gwrthwynebwr:** M.A.G.Davies (preswylydd);

**Aelodau Lleol:** Y Cynghorwyr June Marshall a Keith Marshall

## 1. CAIS AM WYRO TRWYDDED EIDDO AR GYFER PATRICK'S BAR, FFORDD CAERGYBI, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog Patrick's Bar, Ffordd Caergybi, Bangor, i ymestyn oriau'r drwydded wreiddol i gynnwys caniatáu cerddoriaeth fyw a darparu cyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth hyd at 00:00 bob dydd, cerddoriaeth wedi ei recordio hyd at 01:00 bob dydd, i ganiatáu'r gwerthiant o alcohol hyd at 02:30 gyda'r eiddo'n agored hyd at 03:00 bob dydd.

Gofynnwyd i'r is-bwyllgor roddi ystyriaeth i'r cais a'r sylwadau a dderbyniwyd, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.

Adroddwyd yr ymgynghorwyd ar y cais yn unol â'r drefn arferol ac y derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Heddlu | - sylwadau yn cynnwys pryderon |
| Tân | - dim sylwadau |
| Cyngor Dinas | - llythyr o wrthwynebiad |
| Cynghorwyr Lleol | - llythyrau o wrthwynebiad |
| Trigolion lleol | - llythyr o wrthwynebiad |

Eglurwyd, yn dilyn cyfarfod rhwng yr ymgeisydd a'r heddlu, y cytunwyd i ddiwygio'r cais fel a ganlyn:-

Adran E – cerddoriaeth fyw – o 19:00 hyd at 00:00 ar nosweithiau Iau, Gwener, Sadwrn a Sul ynghyd â noson Gŵyl St.Patrick yn unig;

Adran F – cerddoriaeth wedi'i recordio – o 11:00 hyd at 00:00 ar nosweithiau Iau, Gwener, Sadwrn a Sul ynghyd â noson Gŵyl St.Patrick yn unig;

Adran I – darparu cyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth – o 10:00 hyd at 00:00 ar nosweithiau Iau, Gwener, Sadwrn a Sul ynghyd â noson Gŵyl St.Patrick yn unig;

Adran M – gwerthu alcohol – dim oriau ychwanegol i'r rhai cyfredol;

Adran O – oriau agor i'r cyhoedd – dim oriau ychwanegol i'r rhai cyfredol.

Fodd bynnag, hysbyswyd yr heddlu yn ddiweddarach gan yr ymgeisydd ei fod wedi newid ei feddwl ynglŷn â'r cytundeb i amrywio'r oriau, ac er ei fod yn barod i dderbyn y diwygiadau ynglŷn â'r adloniant rheoledig yn Adrannau E, F ac I, 'roedd am ymlynu at ei gais gwreiddiol i werthu alcohol hyd at 02:30 yn ddyddiol (Adran M) ac i fod yn agored i'r cyhoedd hyd at 03:00 yn ddyddiol (Adran O).

O ganlyniad i hyn, gohiriwyd y cais yng nghyfarfod diwethaf yr is-bwyllgor ar 30 Mehefin tra bo hysbysiadau newydd yn cael eu harddangos ar yr eiddo am gyfnod statudol o dair wythnos.

Nodwyd y derbyniwyd rhagor o lythyrau yn gwrthwynebu'r cais y tu allan i'r cyfnod cychwynnol a dosbarthwyd copïau ohonynt i'r aelodau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

(i) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

(ii) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

(iii) Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais.

(iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd.

(v) Gwahoddwyd pob ymgynghorai i gefnogi sylwadau ysgrifenedig.

(vi) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghoreion.

(vii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd i ymateb.

(viii) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'i gynrychiolydd.

(ix) Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Derbyniwyd llythyrau yn gwrthwynebu gan Reolwr Siop Lyfrau Cristnogol, oddi wrth 4 o drigolion Stryd Victoria ac Ann Williams, ar ran trigolion Bangor Uchaf, ynghyd â llythyr a dderbyniwyd eisoes gan Gadeirydd Cymdeithas Bangor Uchaf. Ystyriwyd yr holl ohebiaeth gan yr is-bwyllgor.

Datganodd cynrychiolydd yr ymgeisydd y rhesymau dros gael miwsig wedi ei recordio a chyfleusterau ar gyfer cerddoriaeth tan 00:00, gwerthu alcohol hyd at 02:30 ac oriau agor tan 03:00. Cadarnhawyd bod cytundeb gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru o dan baragraffau E, F ac I ac y buasai'r oriau estynedig dan baragraffau M ac O i'w cyfyngu i Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn. Datganodd yr ymgeisydd fod tua 80% o'i gwsmeriaid yn fyfyrwyr a bod tueddiad i gychwyn allan yn hwyr ac aros allan yn hwyr ar rai nosweithiau.

Cynrychiolwyd Heddlu Gogledd Cymru gan Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu, a'r Rhingyll Bill Coppack a roddodd dystiolaeth fod 114 achlysur o gamymddwyn ac ymddygiadau treisgar wedi eu nodi ym Mangor Uchaf yn ystod y 12 mis diwethaf. 'Roedd

26 o'r rhain ar ôl 01:00. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â Patrick's Bar a chadarnhaodd y Rhingyll Coppack fod yr ymgeisydd yn rhedeg eiddo trefnus. Eglurodd nad oedd yr un dafarn yn gwerthu alcohol ar ôl 01:00, ond bod University Plaice gyda thrwydded i werthu bwydydd poeth tan 02:30 gydag amser agor hyd at 02:45. Datganodd Mr Ian Williams fod Heddlu Gogledd Cymru wedi eu galw allan dair gwaith i Patrick's Bar yn ystod 2008.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Marshall, aelod lleol, i Heddlu Gogledd Cymru am gadw record gofalus o'r digwyddiadau. Fodd bynnag, teimlai fod llawer i ddigwyddiad arall wedi mynd heb ei gofnodi ac y byddai ymestyn yr oriau yn arwain at fwy o dwrw ac ymddygiad aflonyddgar. 'Roedd llythyrau oddi wrth Mrs. M.A.G. Davies a Chyngor Dinas Bangor wedi eu gadael allan o'r bwndel, ac ymddiheurodd y Rheolwr Trwyddedu am hyn. Darllenwyd llythyr Mrs. Davies yn y gwrandawiad a rhoddwyd cyfle iddi ymhelaethu ar ei gynnwys. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan gynrychiolydd yr ymgeisydd. Datganodd y Cynghorydd Keith Marshall, fel aelod lleol o Gyngor Dinas Bangor, bryderon y Cyngor ynglŷn â thwrw a niwsans a'r potensial o gynsail wrth ymestyn yr oriau agor.

Diolchodd y Cynghorydd June Marshall, aelod lleol, i Heddlu Gogledd Cymru am eu cyflwyniad a datganodd beth pryder nad oedd rhai trigolion yn ymwybodol o'r gwrandawiad. Dywedodd nad oedd y myfyrwyr eu hunain eisiau eu cynhyrfu yn hwyr yn y nos a datganodd bryder hefyd ynglŷn ag ymestyn yr oriau agor.

Mewn ymateb i'r gwahanol bryderon, dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd nad oedd y ffigurau a roddwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn eglur i gefnogi'r amser agor. Ychydig iawn o ddigwyddiadau oedd yn cyfeirio yn uniongyrchol at Patrick's Bar ac 'roedd yr Heddlu eu hunain yn datgan fod yr ymgeisydd yn rhedeg eiddo trefnus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr is-bwyllgor, nododd yr ymgeisydd ei fod yn rheoli cwsmeriaid oedd yn ysmygu oddi allan i'r eiddo drwy eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau a thrwy arwyddion. Datganodd hefyd na fyddai yn gadael i gwsmeriaid ddod i'r eiddo ar ôl 23:30. Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd fod y ddadl yn ymddangos yn berthnasol i niwsans cyhoeddus yn hytrach nag i drosedd ac anhrefn a nododd nad oedd unrhyw fyfyriwr wedi gwrthwynebu.

Awgrymodd aelod na fyddai'n ymarferol bosibl gweithredu trefn o atal y cwsmeriaid hynny sydd wedi mynd allan i ysmygu rhag dod yn ôl i mewn i'r eiddo ar ôl 23:30. Mynegodd bryder hefyd ynglŷn â'r ffaith mai'r ymgeisydd ei hun yw'r porthor cofrestredig oherwydd nad yw'n ymarferol iddo weithredu fel porthor ac edrych ar ôl y bar. Yn hyn o beth, cyfeiriodd at y drwydded eiddo gyfredol oedd yn nodi y bydd porthorion cofrestredig ar yr eiddo ar ôl 21:00 bob nos.

Gadawodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelodau lleol, y gwrthwynebwr a chynrychiolwyr yr heddlu'r cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r is-bwyllgor gan ystyried y pedwar egwyddor o fewn Deddf Drwyddedu 2003 sef:-

(i) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
(ii) Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
(iii) Diogelwch y Cyhoedd
(iv) Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**

**(a) Caniatáu gwyro Trwydded Eiddo Patrick's Bar, Bangor dan yr amodau canlynol:-**

**(i) caniatáu cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio a darparu cyfleusterau ar gyfer creu cerddoriaeth hyd at 00:00 o Ddydd Llun hyd Ddydd Sul;**

**(ii) caniatáu cyflenwi alcohol hyd at 01:30 ar nosweithiau Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn a hyd at 01:00 (fel ar hyn o bryd) ar nosweithiau Sul, Llun a Mawrth.**

**(iii) caniatáu i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd hyd at 02:00 ar nosweithiau Mercher, Iau, Gwener a Sadwrn a hyd at 01:30 (fel ar hyn o bryd) ar nosweithiau Sul, Llun a Mawrth.**

**(b) Bod yr ymgeisydd yn cysylltu â'r Rheolwr Trwyddedu er mwyn dod i ddealltwriaeth ynglŷn â chael porthorion cofrestredig ar yr eiddo ar ôl 21:00 a sicrhau nad oes neb yn dod i mewn i'r eiddo ar ôl 23:30.**

Nododd y Cadeirydd nad oedd penderfyniad yr is-bwyllgor yn unfrydol.

Adroddwyd y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu o fewn yr wythnos yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn nodi'r amodau. Hysbyswyd yr ymgeisydd hefyd o'i hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.40am.